CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod rhithwir o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd trwy cynhadledd Zoom, Nos Fawrth, 17 TACHWEDD 2020.

1 **PRESENNOL:**

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Tim Owen, Mrs Arianwen Owen, Mr Myfyr Davies, Mr Jeff Hughes, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, a Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Hefyd, Cynghorwyr Sirol Mr Bryan Owen.

2 **YMDDIHEURIADAU:**

2.1 Derbyniwyd ymddiheuriad oddiwrth Cynghorydd Sirol Peter Rogers.

3 **CROESO**

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 **DATGAN DIDDORDEB**

4.1 Nid oedd neb yn Datgan Diddordeb.

5 **LWFANS CYNGHORWYR.**

5.1 Atgoffwyd pawb i ddychwel y ffurflen yn nol i'r Clerc erbyn 31.12.2020.

6 **CYWIRO & CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD.**

6.1 Cyfarfod Misol 15/09/2020 – cynnig (AH), eilio (TO) ei bod yn rhai cywir.

7 **Safle Parcio Stâd Morawelon, Malltraeth** – dywedodd y Clerc nad oedd ganddo adroddiad bellach ar hyn o bryd ac i ddisgwyl datblygiadau yn y Gwanwyn 2021.

8 **Safle Parcio Stâd Pensiynwyr, Hermon** – cyfeirio at cofnod 7 uchod a fod y sefyllfa yn debyg.

Llofnod……..

9 Dogfen Arolwg Trefniadau Etholiadol ar gyfer Ynys Mon (Cynigion Drafft).

Cadarnhaodd y Clerc fod Dogfen Y Comisiwn Ffiniau wedi ei dderbyn yn cadarnhau nad oedd argymelliad y Cyngor ail-enwi y Ward yn Ward 'Santes Ddwynwen' wedi ei cymeradwyo ac fod yr enw presenol yn parhau, hynny yw, Ward 'Bro Aberffraw'.

10 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN.

Dywedodd y Cadeirydd fod cyfarfod wedi ei chynnal iddo ef a'r Clerc gyda Uwch Swyddog yr Adran (Dylan Edwards), chynrychiolwyr ein Cyngor Sir yn ogystal a Christine Rogers a Rhys Evans o Bwyllgor y Ganolfan ar y 10fed o Dachwedd er mwyn trafod y sefyllfa yn bellach ac fe cafwyd adroddiad byr o'r datblygiadau.

11 Adroddiad y Cynghorwyr Sirol.

Cafwyd adroddiad byr ar lafar oddiwrth Cynghorydd Sirol, Bryan Owen.

11.1 Sefyllfa diweddaraf COVID19 ar yr Ynys gyda brechlyn posibl ar y gorwel. Disgwylir cyhoeddiad a lleoliad canolog ar yr Ynys er mwyn derbyn y brechlyn yn y flwyddyn newydd.

11.2 Disgwylir ail-agor Swyddfeydd y Cyngor & Swyddfeydd y Llywodraeth yn Mis Ebrill 20201.

12 Adroddiad Coeden wedi disgyn ger Pumping Station Hermon (A4080) Llangadwaladr i Fodorgan.

12.1 Nodwyd eto yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y stormydd diwedd Mis Awst ac fe gadarnhawyd nad oedd 4 golau stryd ger Stad Glascoed heb weithio ers hynny. Dywedodd y Clerc ei fod wedi anfon ebost i'r Adran Briffyrdd ar y 21ain Medi yn dilyn y cyfarfod diwethaf. **Cytunwyd fod y Clerc yn anfon llythyr eto i'r Adran Goleuadau Stryd gyda copi i'r Cynghorydd Sirol Bryan Owen ac adrodd yn nôl i'r cyfarfod nesaf.**

13 Ceisiadau Rhoddion;

13.1 Nodwyd llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn oddiwrth Hosbis Dewi Sant am rhodd y Cyngor.

Llofnod.....

14 MATERION CYLLID;

14.1 Cytunwyd aelodau gyda talu rhestr llawn o'r taliadau a derbyniadau y Cyngor fel y ganlyn:

14.1.1	Mr J A Foulkes – Cyflog Clerc – Gorffennaf > Medi 2020	£772.80
14.1.2	HMRC – PAYE	£193.20
14.1.3	Rhys Jones – Gwaith Ail Osod Diffibrilydd Cartref y Rhos	£172.06
14.1.4	Stâd Bodorgan – Rent Rhandiroedd	£1,612.75
14.1.5	Dŵr Cymru – Dwr Mynwent Egwlys Trefdraeth	£23.16
14.1.6	Mon Grass Cutting – Cytundeb Torri Mynwent & Llwybrau	£2,920.00
	Derbyniadau.	
14.1.7	Ffioedd Claddu – Diweddar John Derek Jones	£610.00

14.2 Cysoni Mantolen Banc hyd at 31.10.2020:

CYSONI BANC	2020 / 2021
Gweddill 1af Medi 2020	£ 23,387.42
DERBYNIADAU	£ 610.00
Llai TALIADAU	-£ 1,138.06
GWEDDILL 31 HYDREF 2020.	£ 22,859.36
BALANS CYFRIFON BANC	**2020 / 2021**
Cyfrif Cyfredol	£ 22,859.36
Llai Siec Heb Cyflwyno	- £ NIL
CYFANSWM	£ 22,859.36

14.3 Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi anfon gwybodaeth ymlaen ar gyfer hawlio cymorthdal llwybrau ar gyfer 2020.

14.4 Roedd y Clerc wedi derbyn amcancyfrif 3 blynedd oddiwrth Cwmni Mon Grass Cutting Ltd ac fe argymhellodd y dylai aelodau hepgor unrhyw amcangyfrifon pellach yn unol â Rheol Ariannol 11.1(c) gan fod gan y Cwmni hanes profedig o gwblhau y gontract presennol i safon uchel iawn a bod ganddynt y cefndir a'r wybodaeth orau o'r safleoedd.
Cytunwyd aelodau yn unfrydol i ail-adnewyddu cytundeb torri gwair Y Mynwentydd, Llwybrau Cyhoeddus, Seti'r Cob a Safle Cwt Glas gyda Mon Grass Cutting Limited am DAIR BLYNEDD 2021/24 – cost £3,195 y flwyddyn. Cynnig (TO) & Eilio (GL).

13 Trefnu Cyfarfod Is Bwyllgor Cyllid.

13.1 Roedd angen trefnu dyddiad penodol ar gyfer bennu y briseb ar gyfer 2021/22. Cytunwyd cynnal y cyfarfod ar Nos Fawrth – 15fed Rhagfyr 2020 am 7yh.

Llofnodi……..

14 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD:

14.1 Cais llawn ar gyfer trosi adeiladau allanol i fod yn Dý gwyliau ynghyd a newidiadau i'r mynedfa presennol a gosod sustem trin carthffosiaeth yn: **Cae'r Ddol, Bethel, Bodorgan. Rhif Cais: FPL/2020/134.**

Penderfyniad: Gwrthwynebu'r cais ar sawl sail gan gynnwys lleoliad y safle mewn cefn gwlad, addasrwydd ffyrdd, bioamrywiaeth ac fod yn groes i rheolau cynllunio. Nodwyd hefyd bod y cais yn ddiffygiol gan nad oedd wedi cynnwys unrhyw ddogfennau/adroddiadau ategol.

15 Swydd y Clerc.

15.1 Dywedodd y Clerc ei fod wedi penderfynu sefyll i lawr o'r swydd ar ôl cyfarfod blynyddol Mis Mai 2021 ac fe ddiolchodd pawb am eu cefnogaeth. Diolchodd yr aelodau iddo am yr holl waith ers 3 blynedd gyda gobaith y bydd yn ail-ystyried.

15.2 Dywedodd y Cadeirydd, Mr Dafydd Jones, y bydd ynte hefyd yn ymddiswyddo fel Cynghorydd ar ol y cyfarfod blynyddol.

16 GOHEBIAETH

16.1 Gwybodaeth diweddaraf Coronafeirws.

16.2 Datganiad y Cyngor Sir – Moderneiddio Ysgolion Môn.

16.3 Datganiad - Pwyllgor Gwaith yn cytuno i godi ffi blynyddol ar gyfer casglu gwastraff gwyrdd – **cafwyd trafodaeth agored yn dilyn penderfyniad CSYM.**

16.4 Strategaeth Genedlaethol - Rheoli Perygl Llifogydd & Erydu Arfordirol yng Nghymru – **dangoswyd pryderon ynghylch a dyfodol y Cob.**

16.5 Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol:-

- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid (rhan 4.6 a paragraff 6.2.1)
- Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu /

16.6 Cyhoeddiadau Polisi: Prynu Gorfodol.

16.7 Un Llais Cymru - Sesiynau hyfforddiant a gynhelir ym mis Tachwedd 2020.

16.8 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon 12/11/2020 – **adroddiad byr gan y Clerc.**

17 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - MIS IONAWR 2021 (12/01/2021).

17.1 Diolchodd y Cadeirydd i pob aelod am fynychu. Fe clowyd y cyfarfod am 7:50yh.

Arwyddo.....Cadeirydd.....Dyddiad.